



Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19

28 Ebrill 2020
SB 16/2020

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19, gofynnwyd i bobl a oeddent yn gallu siarad Cymraeg a ble'r oeddent wedi dysgu'r iaith. Os oedd plant ar yr aelwyd, gofynnwyd am allu aelodau eraill o'r teulu i siarad Cymraeg a ble'r oeddent nhw hefyd wedi dysgu'r iaith er mwyn gweld i ba raddau yr oedd yr iaith yn cael ei throsglwyddo o fewn y teulu. Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau.

Y prif ganfyddiadau

Dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref

- Roedd 43% o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref, fel plentyn ifanc.
- Nid yw'r ganran sy'n dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref wedi newid yn sylweddol dros amser, ond mae cyfran llawer uwch o siaradwyr Cymraeg iau wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol, o'i gymharu â siaradwyr Cymraeg hŷn.
- Gwnaeth 75% o'r rheini a ddysgodd y Gymraeg yn y cartref ddisgrifio eu hunain yn siaradwyr rhugl, o'i gymharu â 6% o'r rheini a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd.



Dylanwad rhieni

- Roedd 92% o blant 3 i 19 oed ar aelwydydd lle'r oedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg, hefyd yn gallu siarad Cymraeg.
- Roedd 82% o blant sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd lle'r oedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc.
- Lle'r oedd y rhieni wedi dysgu Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc, roedd 82% o'u plant hefyd wedi dysgu Cymraeg yn y cartref.

Trosglwyddo'r iaith

- O blith y *rhieni sy'n siarad Cymraeg*, y rheini a oedd yn fwyaf tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant oedd y rhieni sydd:
 - wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref
 - yn rhugl yn Gymraeg
 - â mwy nag un plentyn
 - yn byw yng ngogledd-orllewin Cymru
 - yn fenywaidd
 - ag incwm uchel

Y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn rhoi dadansoddiad manylach o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 mewn perthynas â'r **Gymraeg**.

Gellir gweld yr holiadur llawn ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Gellir gweld tablau ychwanegol drwy'r [dangosydd canlyniadau](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Siarad Cymraeg	3
Dysgu Cymraeg	5
Newid dros amser	10
Dylanwad yr aelwyd	11
Dylanwad rhieni	13
Pwy sy'n rhoddi ac yn trosglwyddo?	15
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	18

Cyflwyniad

Mae strategaeth y Gymraeg '[Cymraeg 2050](#)' yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Un o amcanion y strategaeth yw sicrhau cynnydd o ran trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, a chyflwyno'r Gymraeg i bob plentyn mor gynnar â phosibl.

Canfu'r ymchwili diweddar [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#) fod rhieni'n dueddol o eisiau ailadrodd y profiad a gawsant pan oedden nhw'n blentyn gyda'u plant eu hunain. Felly'n gyffredinol roedd siaradwyr Cymraeg a oedd wedi dysgu'r iaith yn y cartref eisiau trosglwyddo'r iaith i'w plant eu hunain yn y cartref. Ar y cyfan, roedd siaradwyr Cymraeg a wnaeth ddysgu'r iaith drwy addysg cyfrwng Cymraeg heb ystyried siarad Cymraeg gyda'u plant yn y cartref ond roeddent eisiau i'w plant fynychu ysgolion Cymraeg. Disgrifiwyd hyn fel rhoddi'r iaith yn hytrach na'i throsglwyddo.

I archwilio'r theori hwn ymhellach a monitro faint o siaradwyr Cymraeg sy'n trosglwyddo neu'n rhoddi'r iaith, cafodd cwestiynau eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ynghylch siarad Cymraeg a ble y dysgwyd yr iaith.


Cyflwynir canlyniadau'r cwestiynau hyn yn y bwletin hwn.

Siarad Cymraeg

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 fod 22% o bobl 3 oed neu'n hŷn wedi adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda 16% arall yn adrodd bod ganddynt ychydig o allu i siarad Cymraeg. Roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda 24% o fenywod yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 21% o ddynion, a 17% o fenywod yn adrodd bod ganddynt ychydig o allu i siarad Cymraeg o'i gymharu â 15% o ddynion.

Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran fel y gwelir yn Siart 1.


Siart 1 Gallu'r rheini sy'n 3 oed neu'n hŷn i siarad Cymraeg, yn ôl oedran (a)



(a) Noder bod yr ymatebion a ddarparwyd gan y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn wedi'u rhoi ganddyn nhw eu hunain, tra bod yr ymatebion a ddarparwyd gan y rheini sydd rhwng 3 a 15 oed wedi'u rhoi gan oedolyn ar yr aelwyd.

Roedd hyn hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal awdurdod lleol, fel y nodwyd yn Siart 2.


Siart 2 Gallu'r rheini sy'n 3 oed neu'n hŷn i siarad Cymraeg, yn ôl ardal awdurdod lleol




Mae'r canlyniadau a gyflwynwyd yn Siart 1 a 2 yn dilyn patrwm tebyg o ran gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran ac awdurdod lleol â'r hyn a adroddwyd gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifiad 2011¹. Plant o oedran ysgol sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg, ond mae'r ganran hon yn gostwng yn sylweddol ar ôl gadael addysg statudol rhwng 16 a 24 oed. Bobl sy'n byw yng ngogledd-orllewin Cymru neu yng ngorllewin Cymru sy'n fwyaf tebygol o siarad Cymraeg, yn enwedig yng Ngwynedd, Sir Fôn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal, gofynnwyd i oedolion 16 neu'n hŷn am eu rhuglder yn y Gymraeg a pha mor aml yr oeddent yn siarad yr iaith. Gwelir yr ymatebion yn Siartiau 3 a 4 isod.

Siart 3 Gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran (b)



Siart 4 Amllder siarad Cymraeg yn ôl oedran (b)



(b) Noder na ofynnwyd y cwestiynau ynghylch rhuglder ac amllder i blant rhwng 3 a 15 oed.

O blith oedolion 16 oed neu'n hŷn, y grŵp oedran ieuengaf oedd yn fwyaf rhugl yn y Gymraeg gyda 16% o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl a 12% arall yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg (Siart 3). Y grŵp oedran ieuengaf oedd hefyd yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yn fwyaf aml, gyda 13% yn adrodd eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd a 9% yn siarad Cymraeg bob wythnos (Siart 4).


Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y grŵp oedran ieuengaf a bobl sy'n 20 oed neu'n hŷn oedd y gyfran sydd 'ddim ond yn siarad ychydig o Gymraeg' a'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn 'llai aml'. Roedd y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 16 i 19 oed yn llawer mwy tebygol o fod yn y categorïau hyn na'r grwpiau oedran eraill.

¹ [Canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar y Gymraeg 2001-2018](#)

Dysgu Cymraeg

Gofynnwyd i'r rheini sydd ag o leiaf ychydig o allu yn y Gymraeg ble yr oeddent wedi dysgu i siarad yr iaith yn bennaf. Noder mai dyma dehongliad yr ymatebwyr o ble yr oeddent yn teimlo eu bod nhw neu eu plentyn wedi dysgu i siarad Cymraeg 'yn bennaf'. Mae'n bosibl eu bod wedi mynychu meithrinfa cyfrwng Cymraeg ond eu hymateb oedd eu bod wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd 'yn bennaf', a hynny am eu bod wedi mynychu'r ysgol gynradd am gyfnod hirach o amser neu'n teimlo mai yn yr ysgol yr oeddent wedi dod yn siaradwyr Cymraeg er enghraifft. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Siart 5.

Siart 5 Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg yn bennaf (c)




(c) Noder bod yr ymatebion a ddarparwyd gan y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn wedi'u rhoi ganddyn nhw eu hunain, tra bod yr ymatebion a ddarparwyd gan y rheini sydd rhwng 3 a 15 oed wedi'u rhoi gan oedolyn ar yr aelwyd.

Fel y gwelir yn Siart 5, roedd 43% o'r siaradwyr Cymraeg wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref, o gymharu â 7% yn unig o'r rheini a oedd ag 'ychydig o allu' i siarad Cymraeg. Roedd y rheini ag 'ychydig o allu' i siarad Cymraeg yn fwyaf tebygol o fod wedi dysgu i siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd (31%).

Mae Siart 5 wedi'i selio ar 'siaradwyr Cymraeg' a'r rheini sydd ag 'ychydig o allu' i siarad Cymraeg, ond mae'n bosib cyflwyno'r canlyniadau hyn fel cyfran o'r boblogaeth gyfan, fel y dengys yn Siart 6. Gall cyflwyno'r canlyniadau yn y fformat hwn ei gwneud yn haws dehongli'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau.

Siart 6 Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg




Mae Siart 6 yn dangos bod 10% o bobl yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg ac wedi dysgu i siarad yr iaith yn y cartref fel plentyn ifanc yn bennaf, tra bod 2% wedi dysgu Cymraeg yn y feithrinfa, 7% yn yr ysgol gynradd a 3% yn yr ysgol uwchradd. Roedd llai na hanner canran wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y coleg neu'r brifysgol 'yn bennaf', gydag 1% wedi dysgu'r iaith yn rhywle arall. Y rhain, gyda'i gilydd, yw'r 22% sydd wedi adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

O'r 16% a ddywedodd bod ganddynt ychydig o allu i siarad Cymraeg, roedd 1% wedi caffael yr iaith yn y cartref, 1% wedi'i chaffael yn y feithrinfa, 5% yn yr ysgol gynradd, 5% yn yr ysgol uwchradd, ac ychydig dros hanner canran yn y coleg neu'r brifysgol, gyda'r 4% sy'n weddill wedi datblygu'r sgiliau hyn yn rhywle arall.


Mae hyn yn amrywio ychydig rhwng y rhywiau, gyda menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion o fod wedi dysgu i siarad Cymraeg ym mhob cam. Serch hynny, nid oedd unrhyw rai o'r gwahaniaethau'n arwyddocaol yn ystadegol.

Siart 7 Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg yn bennaf, yn ôl rhyw




Mae hyn hefyd yn amrywio yn ôl oedran, gydag ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r iaith yn y cartref, tra bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol. Dangosir hyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn Siart 8a ac ar gyfer y rhai â ' rhywfaint o allu i siarad Cymraeg ' yn Siart 8b.

Siart 8a Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg yn bennaf, yn ôl grŵp oedran



Mae Siart 8a yn dangos ble yr oedd y rheini a adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi dysgu'r iaith. Mae'r siart hon yn dangos y dylanwad cynyddol y mae addysg wedi'i gael ar allu pobl i siarad Cymraeg. O'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn, roedd bron tri chwarter ohonynt wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plant ifanc. Ar y llaw arall, roedd llai na chwarter y rheini a oedd yn iau na 25 oed wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref. Nid yw'r gyfran ym mhob grŵp oedran a ddysgodd i siarad Cymraeg yn y cartref wedi newid yn sylweddol dros amser, ond mae'r gyfran a wnaeth ddysgu i siarad yr iaith yn y feithrinfa, yn yr ysgol gynradd neu yn yr ysgol uwchradd lawer iawn yn uwch ymhlith y grwpiau oedran iau.


Siart 8b Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg yn bennaf, yn ôl grŵp oedran



Mae Siart 8b yn dangos lle'r oedd y rheini a adroddodd bod ganddynt ychydig o allu i siarad Cymraeg wedi dysgu'r iaith. Mae'r siart yn dangos unwaith eto'r dylanwad y mae addysg wedi'i gael ar allu pobl i ddatblygu rhywfaint o allu yn y Gymraeg. Mae'r gyfran ym mhob grŵp oedran a ddatblygodd rhywfaint o allu yn y Gymraeg yn y feithrinfa, yn yr ysgol gynradd neu yn yr ysgol uwchradd lawer iawn yn uwch ymhlith y grwpiau oedran iau. O'r rheini sy'n 25 oed neu'n hŷn, roedd tua thraean ohonynt wedi datblygu 'rhywfaint o sgiliau' yn y Gymraeg yn 'rhywle arall', o bosibl drwy eu gweithle.

Roedd y rhanbarth yr oedd bobl yn byw ynddo hefyd yn arwyddocaol o ran ble yr oeddent wedi dysgu i siarad Cymraeg. Mae Siart 9 isod yn dangos bod y rhanbarth sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg (gogledd-orllewin Cymru) hefyd â'r gyfran uchaf o bobl a wnaeth ddysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc.

Siart 9 Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg yn bennaf, yn ôl rhanbarth²




O'r rheini sydd wedi caffael rhywfaint o allu i siarad Cymraeg, nid oedd amrywiad cryf ar lefel ranbarthol o ran ble wnaethant ddysgu'r sgiliau hyn.

² Mae rhanbarth gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy; mae rhanbarth y gogledd-ddwyrain yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam; mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys Powys a Cheredigion; ac mae rhanbarth y de-orllewin yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae pob ardal awdurdod lleol arall yn ne-ddwyrain Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd).

Gofynnwyd i oedolion 16 oed neu'n hŷn i ddisgrifio pa mor rhugl oeddent yn siarad Cymraeg a pha mor aml yr oeddent yn ei siarad. Mae Siart 10 isod yn dangos eu gallu, yn ôl ble wnaethant ddysgu i siarad Cymraeg.

Siart 10 Rhuglder, yn ôl ble'r oedd bobl 16 oed neu'n hŷn wedi dysgu i siarad Cymraeg yn bennaf




Mae Siart 10 yn dangos bod 75% o'r rheini a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc wedi disgrifio eu hunain yn siaradwyr rhugl. Roedd 55% o'r rheini a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y feithrinfa, a 24% o'r rheini a oedd wedi dysgu i siarad yr iaith yn yr ysgol gynradd, hefyd yn adrodd eu bod yn rhugl. Hyd at yr ysgol uwchradd, ymddengys mai'r hwyraf mewn bywyd yr oedd y person wedi dysgu i siarad Cymraeg, y lleiaf tebygol oeddent o fod yn rhugl. Fodd bynnag, roedd y rheini a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y coleg neu yn y brifysgol ychydig yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn rhugl, na'r rheini a oedd wedi dysgu i siarad yr iaith yn yr ysgol uwchradd.

Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid dros amser?

Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg yn Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 a 2013-15 hefyd ble wnaethant ddysgu i siarad Cymraeg. Er mwyn gallu cymharu, dim ond yr ymatebwyr a adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg sydd wedi'u cynnwys yn y siart isod (cafodd y rhai a nododd na allent siarad Cymraeg ond fod ganddynt rhywfaint o allu siarad Cymraeg eu hepgor).

Siart 11 Ble wnaeth pobl 3 oed neu hŷn ddysgu i siarad Cymraeg, yn 2004-06, 2013-15 a 2018-19 (a)




(a) Noder mai'r dewisiadau yn 2004-06 oedd 'yn y cartref', 'yn yr ysgol' neu 'rhywle arall'.

Mae Siart 10 yn dangos er nad yw canran y bobl sydd wedi dysgu i siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc wedi newid yn sylweddol dros amser, mae'r gyfran sy'n dysgu i siarad Cymraeg yn yr ysgol wedi cynyddu o 8% yn 2004-06 i 10% yn 2018-19 (7% yn yr ysgol gynradd a 3% yn yr ysgol uwchradd).

Yn Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992, roedd 91% o siaradwyr Cymraeg rhugl a oedd yn 16 oed neu'n hŷn wedi dysgu siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc; roedd hyn wedi gostwng i 83% erbyn 2004-06, 78% erbyn 2013-15 a 74% erbyn 2018-19. Nid yw hyn, serch hynny, yn golygu bod gostyngiad sylweddol yng nghyfran y plant sy'n dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref. Mae'r data'n dangos fod cynnydd wedi bod yng nghyfran y bobl a oedd yn rhugl ond heb ddysgu'r Gymraeg yn y cartref. Mae Siart 12 yn dangos cyfran yr oedolion sy'n rhugl yn Gymraeg yn ôl ble wnaethant ddysgu i siarad yr iaith.

Siart 12 Ble wnaeth oedolion rhugl ddysgu i siarad Cymraeg, yn 2004-06, 2013-15 a 2018-19 (a)



(a) Noder mai'r dewisiadau yn 2004-06 oedd 'yn y cartref', 'yn yr ysgol' neu 'rhywle arall'.


Er mai ychydig iawn o newid a welwyd yng nghyfran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, mae cyfran uwch o'r oedolion na wnaeth ddysgu i siarad yr iaith yn y cartref yn siaradwyr rhugl.

Dylanwad yr aelwyd

Gall plant ond ddysgu i siarad iaith yn y cartref pan fo o leiaf un rhiant, gwarcheidwad neu frawd/chwaer ar yr aelwyd sy'n gallu siarad Cymraeg â nhw. Gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol a oedd yn byw ar aelwydydd sy'n cynnwys plentyn 3 i 19 oed a rhiant neu warcheidwad, a oedd pawb ar yr aelwyd yn gallu siarad Cymraeg ac, os felly, ble wnaethant ddysgu'r iaith.

Mae Siart 13 isod yn dangos cyfran y plant hynny a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn seiliedig ar natur ieithyddol eu haelwyd.

Siart 13 Cyfran y plant a phobl ifanc 3-19 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl natur ieithyddol eu haelwyd




Fel y gellid disgwyl, yn yr aelwydydd hynny lle'r oedd y ddau riant (neu bob gwarcheidwad) yn gallu siarad Cymraeg oedd y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda 92% o'r plant a phobl ifanc 3 i 19 oed ar yr aelwydydd hyn yn gallu siarad Cymraeg. Roedd yr aelwydydd gyda mam sengl sy'n siarad Cymraeg yn ail agos ac wedyn yr aelwydydd gyda thad sengl sy'n siarad Cymraeg, lle'r oedd 87% a 71% o'r plant yn gallu siarad yr iaith. Mae hyn yn cymharu â 30% yn yr aelwydydd lle nad oedd yr un o'r rhieni yn siarad Cymraeg, 29% yn yr aelwydydd gyda mam sengl nad yw'n siarad Cymraeg a 28% yn yr aelwydydd gyda thad sengl nad yw'n siarad Cymraeg.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, yn yr aelwydydd pâr lle'r oedd dau riant yn gallu siarad Cymraeg roedd 82% o'r plant tair a phedair oed hefyd yn gallu siarad Cymraeg. Yn yr aelwydydd pâr lle'r oedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, roedd 45% o'r plant tair a phedair oed yn gallu siarad Cymraeg. Canfu Arolwg Cenedlaethol 2018-19 fod 87% o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg pan oeddent yn byw mewn aelwyd pâr lle oedd dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg a 54% ar aelwydydd lle'r oedd un oedolyn yn unig yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ni ddylid cymharu canlyniadau'r Arolwg

Cenedlaethol â chanlyniadau'r Cyfrifiad gan fod canlyniadau'r arolwg ar gyfer y Gymraeg dipyn yn uwch yn hanesyddol na'r Cyfrifiad.

Mae Siart 14 isod yn dangos ble wnaeth plant a phobl ifanc 3 i 19 oed sy'n siarad Cymraeg ddysgu'r iaith, yn ôl natur ieithyddol eu haelwyd.

Siart 14 Ble wnaeth plant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg ddysgu'r iaith, yn ôl natur ieithyddol eu haelwyd (a)



(a) Mae rhai o'r categorïau a geir yn siart 13 wedi'u grwpio'n gategoriâu newydd ar gyfer y siart hon er mwyn cynyddu maint y sampl.

Fel y gellid disgwyl, roedd bron pob un o'r plant sy'n siarad Cymraeg yn yr aelwydydd hynny lle nad oedd unrhyw riant sy'n gallu siarad yr iaith, wedi dysgu i siarad yr iaith yn y feithrinfa, yn yr ysgol gynradd neu yn yr ysgol uwchradd.

Adroddodd 82% o blant sy'n siarad Cymraeg o aelwydydd lle'r oedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg eu bod wedi dysgu i siarad yr iaith yn y cartref fel plentyn ifanc.


Yn yr aelwydydd lle'r oedd y fam yn gallu siarad Cymraeg ond nid y tad, roedd y plant yn fwy tebygol o fod wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref na'r plant yn yr aelwydydd lle'r oedd y tad yn siarad Cymraeg ond nid y fam. Fodd bynnag, ar gyfer y ddau fath hyn o aelwyd, roedd y plant yn fwyaf tebygol o fod wedi dysgu i siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd.

Dylanwad rhieni

Canfu'r ymchwili diweddar [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#) fod hyder rhieni neu eu gallu yn y Gymraeg yn ffactor cryf yn eu penderfyniad i siarad Cymraeg gyda'u plentyn yn y cartref.

Mae Siart 15 isod yn dangos cyfran y plant sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhuglder eu rhieni yn yr iaith. Noder y gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg yn unig am eu rhuglder yn y Gymraeg, ac felly dim ond ar gyfer y rhiant a ddewiswyd ar gyfer yr arolwg y mae gennym yr wybodaeth hon.


Siart 15 Canran y plant 3-19 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl gallu eu rhieni i siarad Cymraeg



Roedd cyfran fwy o blant rhieni rhugl yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 90% o blant rhieni rhugl yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 30% o blant rhieni nad oedd yn gallu siarad unrhyw Gymraeg.

Mae Siart 16 yn dangos ble'r oedd plant 3-19 oed sy'n siarad Cymraeg wedi dysgu'r iaith, yn ôl hunanadroddiad eu rhieni o'u gallu yn y Gymraeg.


Siart 16 Ble wnaeth plant 3-19 oed sy'n siarad Cymraeg ddysgu i siarad yr iaith, yn ôl gallu eu rheini yn y Gymraeg



Roedd 80% o blant y rhieni sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref. Roedd y ganran lawer yn is ymhlith rhieni a oedd yn siarad Cymraeg ond nad oeddent wedi disgrifio eu hunain yn siaradwyr rhugl, gyda dros 85% o'u plant nhw wedi dysgu i siarad Cymraeg y tu allan i'r cartref.

Canfu'r ymchwiliad flaenorol ynghylch [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#) hefyd fod rhieni'n dueddol o eisiau gwneud yr un peth gyda'u plant nhw ag yr oeddent wedi'i brofi pan oedden nhw'n blant ifanc. Mae Siart 17 isod yn dangos ble wnaeth plant 3-15 oed ddysgu i siarad Cymraeg, yn ôl ble wnaeth eu rhieni ddysgu i siarad yr iaith.

Siart 17 Ble wnaeth plant 3-19 oed sy'n siarad Cymraeg ddysgu i siarad yr iaith, yn ôl ble wnaeth eu rhieni sy'n siarad Cymraeg ddysgu i siarad yr iaith



Lle'r oedd y rhieni wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plentyn ifanc, roedd 82% o'u plant hefyd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref. Lle'r oedd rhieni wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y feithrinfa, roedd bron hanner eu plant a oedd yn gallu siarad Cymraeg (51%) hefyd wedi dysgu i siarad yr iaith yn y feithrinfa; ac yn yr un modd, lle'r oedd rhieni wedi dysgu i siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd, roedd y rhan fwyaf o'u plant a oedd yn gallu siarad Cymraeg (58%) wedi dysgu i siarad yr iaith yn yr ysgol gynradd. Mae'n edrych yn debyg mai'r cynharaf yr oedd y rhieni wedi dysgu i siarad Cymraeg, y cynharaf yr oedd eu plant wedi dysgu i siarad yr iaith.


Fodd bynnag, roedd plant rhieni a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y coleg neu'r brifysgol neu yn rhywle arall yn fwy tebygol na phlant rhieni a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd i ddysgu'r iaith naill ai yn y cartref neu yn y feithrinfa.

Pwy yw 'rhoddwyr' a 'throsoglwyddwyr' y Gymraeg?

Drwy gynnal 'atchweliad logistaidd deuaid'³ mae'n bosibl nodi nodweddion y rhieni sydd â phlant sy'n gallu siarad Cymraeg. Wrth ystyried rhieni plant a phobl ifanc 3-19 oed yn unig, canfyddwyd mai'r ffactorau canlynol oedd yn dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd bod y plant yn siarad Cymraeg, pan reolwyd y ffactorau eraill⁴:

- **gallu'r rhieni yn y Gymraeg** - roedd rhieni a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tebygol na rheini nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg o gwbl i fod â phlentyn a oedd yn gallu siarad Cymraeg (dangoswyd yn flaenorol yn Siart 15).
- **ym mha ardal yng Nghymru y mae'r rhieni'n byw** - roedd rhieni sy'n byw yng ngogledd-orllewin Cymru yn fwy tebygol o fod â phlant sy'n siarad Cymraeg, o gymharu â rhieni sy'n byw yn y de-ddwyrain.
- **cymwysterau'r rhieni** - roedd rhieni sydd â chymwysterau ar lefel uwch yn fwy tebygol o fod â phlant a oedd yn gallu siarad Cymraeg (gweler siart 18 isod).

Siart 18 Canran y plant a phobl ifanc 3-18 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl lefel cymhwyster eu rhieni



I ganolbwyntio ar rieni sy'n 'trosoglwyddo'r' iaith i'w plant yn hytrach na rhieni sydd eisiau i'w plant i siarad Cymraeg drwy'r feithrinfa neu'r ysgol, cynhaliwyd atchweliad logistaidd ar rieni sy'n siarad Cymraeg a chanddynt blant rhwng 3 a 19 oed. Canfuwyd fod cysylltiad cryf rhwng y ffactorau canlynol a chael plant a wnaeth ddysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plant ifanc, pan reolwyd ffactorau eraill⁵:

- **ble wnaeth y rhieni ddysgu i siarad Cymraeg** - roedd rhieni a oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plant ifanc yn fwy tebygol na'r rhieni na wnaeth ddysgu i siarad yr iaith yn y cartref o drosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref. Roedd 80% o rieni sy'n siarad Cymraeg

³Techneg ystadegol a ddefnyddir i ragfynegi'r cysylltiad rhwng nodweddion y rhieni ac a yw eu plant yn gallu siarad Cymraeg ai peidio. Ceir rhagor o wybodaeth am y fethodoleg hon yn yr [adroddiad ar ddadansoddiad atchwel a'r modelau a gynhyrchwyd](#)

⁴Ar gyfer yr atchweliad hwn, ystyriwyd y ffactorau canlynol: Oedran, rhyw, statws cyflogaeth, incwm, statws priodasol, hunaniaeth genedlaethol, cymwysterau, a chrefydd y rhieni, ynghyd â'u gallu yn y Gymraeg, y rhanbarth yr oeddent yn byw ynddo a nifer y plant a oedd ganddynt.


⁵Ystyriwyd yr un ffactorau a nodwyd yn nhroednodyn 4, a hefyd p'un a oedd y rhiant wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref ai peidio.

ac a oedd wedi dysgu i siarad yr iaith yn y cartref wedi trosglwyddo'r iaith i'w plant eu hunain yn y cartref. Mae hyn yn cymharu ag 17% o rieni sy'n siarad Cymraeg ac na wnaeth ddysgu i siarad yr iaith yn y cartref yn trosglwyddo'r iaith i'w plant eu hunain yn y cartref.⁶

- **gallu'r rhieni yn y Gymraeg** - roedd y rheini a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn fwy tebygol na'r rhieni a oedd yn llai rhugl o drosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref - roedd 71% o rieni rhugl yn trosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref, o'i gymharu â 10% o'r rheini nad oedd yn rhugl.⁶
- **nifer y plant ar yr aelwyd** - roedd 53% o'r rieni a oedd â dau neu fwy o blant, yn trosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref, o'i gymharu â 36% o'r rhieni a oedd ag un plentyn.
- **ym mha ardal o Gymru y mae'r rhieni'n byw** - roedd rhieni sy'n siarad Cymraeg ac sy'n byw yng ngogledd-orllewin Cymru yn fwy tebygol na rhieni sy'n byw yn y de-ddwyrain o drosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref (gweler siart 19 isod).
- **rhyw** - roedd mamau sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol na thadau sy'n siarad Cymraeg o drosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref - 49% o famau o gymharu â 44% o dadau.
- **incwm** - roedd rhieni sy'n siarad Cymraeg ac sy'n ennill mwy yn fwy tebygol o drosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref (gweler Siart 20 isod).

Mae siartiau 19 a 20 isod yn dangos cyfran y rhieni sy'n siarad Cymraeg y mae eu plant wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref fel plant ifanc, yn ôl rhanbarth ac incwm.

Siart 19 Cyfran y rhieni sy'n siarad Cymraeg (sydd â phlant 3-19 oed) y mae eu plant wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref, yn ôl rhanbarth⁷




Mae Siart 19 yn dangos bod 71% o'r rhieni yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n siarad Cymraeg wedi trosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref, o gymharu â 25% o'r rieni o'r de-ddwyrain sy'n siarad Cymraeg.

⁶ Noder fod y canrannau yma'n is na'r hyn a welir yn siartiau 16 ac 17 gan fod y siartiau hynny'n dangos canran y plant, yn hytrach na chanran y rhieni.

⁷ Mae rhanbarth **gogledd-orllewin** Cymru'n cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy; mae'r **gogledd-ddwyrain** yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam; mae'r **canolbarth** yn cynnwys Powys a Cheredigion; ac mae'r **de-orllewin** yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae pob ardal awdurdod lleol arall yn **de-ddwyrain** Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd).

Siart 20 Cyfran y rhieni siarad Cymraeg (sydd â phlant 3-19 oed) y mae eu plant wedi dysgu i siarad Cymraeg yn y cartref, yn ôl incwm y rhieni



Mae Siart 20 yn dangos bod 57% o rieni sy'n siarad Cymraeg ac sy'n ennill dros £31,100 y flwyddyn yn trosglwyddo'r iaith i'w plant yn y cartref, o gymharu â 31% o'r rhieni a oedd yn ennill llai na £10,400 y flwyddyn.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Dewiswyd 24,762 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol ar gyfer Defnyddwyr Bach. Ymwelodd y cyfwelwyr â phob cyfeiriad a dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap ar yr aelwyd. Yna, cynhaliwyd cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion, ymddygiadau a nodweddion. Llwyddwyd i gynnal 11,922 o gyfweiliadau a chafwyd cyfradd ymateb o 54.2%.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd yn yr [adroddiad technegol](#).

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r ffigurau sy'n cael eu dyfynnu yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol yn unig. Gall atebion fod ar goll am sawl rheswm, gan gynnwys gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny'n golygu fod y berthynas honno'n un achosol. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Adroddiad ansawdd

Mae crynodeb o'r [adroddiad ansawdd](#) ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar

unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus. Ein cyfrifoldeb ni yw cydymffurfio â'r safonau hyn.

Cadarnhawyd y byddai dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn parhau yn 2017 yn dilyn [gwiriad cydymffurfio](#) gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cynhaliwyd yr [asesiad llawn](#) diwethaf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- darparu dadansoddiadau mwy manwl yn y [dangosydd canlyniadau](#) a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd;
- diweddarau pynciau'r arolwg yn flynyddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi newidiol;
- cynnwys dadansoddiad atchweliad fel rhan safonol o'n hallbynnau er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol i'r canlyniadau sydd o ddiddordeb iddynt.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol yn destun rhywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio lwfansau ansicrwydd i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Gellir cyfrifo'r lwfansau ansicrwydd hyn o amgylch amcangyfrif arolwg, ac maent yn cynnig ystod lle mae'r gwir werth yn debyg o ostwng. Ar gyfer 95% o samplau arolygon, bydd y lwfans ansicrwydd o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe bai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth yn gyfan). Yn gyffredinol, y lleiaf yw maint y sampl, y mwyaf yw'r lwfans ansicrwydd. Mae'r lwfansau ansicrwydd hefyd wedi'u cynnwys yn nhablau canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol drwy StatsCymru.

Fel sy'n wir ar gyfer unrhyw arolwg, mae'n bosibl y gallai amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau samplu eraill effeithio ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol. Er enghraifft, oherwydd diffyg ymateb; oherwydd efallai na fyddai ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddent yn ymateb yn gywir; ac oherwydd y gallai cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornadau yn gyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu, ac fe'u trafodir ymhellach yn yr adroddiad ansawdd ar yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Pan fo testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r lwfansau ansicrwydd ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond, fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), hynny yw, bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Sylwch fod cadarnhau a yw dau lwfans ansicrwydd yn gorgyffwrdd yn llai tebygol na phrawf ystadegol ffurfiol o arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at ganlyniadau negyddol ffug: casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol ffug: casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal sawl cymhariaeth yn cynyddu'r siawns o ddod o hyd i ganlyniadau cadarnhaol ffug. Felly pan fo sawl cymhariaeth yn cael eu gwneud, mae natur geidwadol y prawf yn fanteisiol am ei fod yn lleihau (ond nid yn dileu) y siawns hon.

Argaeledd data ar gyfer dimensiynau cydraddoldeb:

Dimensiynau cydraddoldeb	Wedi'i gasglu	Wedi'i gynnwys yn y datganiad	Ar gael yn y dangosydd canlyniadau	Ar gael ar gais
Hil/Ethnigrwydd	Ydy	Nac ydy	Nac ydy	Ydy
Grwpiau oedran	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy
Rhyw	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy
Namau ac anabledau	Ydy	Nac ydy	Nac ydy	Ydy
Cyfeiriadedd rhywiol	Ydy	Nac ydy	Nac ydy	Ydy
Crefydd neu gred	Ydy	Nac ydy	Ydy	Ydy
Priodas a phartneriaeth sifil	Ydy	Nac ydy	Ydy	Ydy
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ydy	Nac ydy	Nac ydy	Ydy

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n casglu data yn ystod y cyfweiliad yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("unrhyw gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para neu y disgwylir iddynt bara am o leiaf 12 mis neu fwy").

Mae cwestiynau wedi'u cynnwys yn yr arolwg hefyd ynghylch ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a beichiogrwydd. Fodd bynnag, nid oedd maint y samplau'n ddigonol i ddarparu dadansoddiad o'r data.

Cafodd y cwestiynau ar grefydd a phriodas eu cynnwys yn y dadansoddiad atchweliad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond nid oeddent yn arwyddocaol ar ôl i ni reoli ffactorau eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("[dangosyddion cenedlaethol](#) ") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ar gyfer dau o'r [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Dyma'r canrannau o'r boblogaeth sy'n:

- [Siarad Cymraeg bob dydd ac yn medru siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg](#),
- [Gallu siarad Cymraeg](#)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Manylion pellach

Mae'r bwletin hwn ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg>

Cafodd [datganiad cyntaf](#) yr arolwg ei gyhoeddi ar 18 Mehefin 2019.

Y diweddariad nesaf

Nid yw hwn yn gyhoeddiad rheolaidd.

Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i dataiaithgymraeg@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir yn wahanol.

